# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

## Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 25 Ionawr 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**1. Michael German (Dwyrain De Cymru)** Yng ngoleuni penderfyniad y Cynulliad ar 8 Rhagfyr 1999, pa gamau sydd wedi'u cymryd i greu mecanwaith ar gyfer parhau'r ddeialog rhwng y Cynulliad a Senedd y Deyrnas Unedig wrth ddrafftio deddfwriaeth newydd. (OAQ2961)

**2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)** Beth yw hynt yr ymdrechion i wella a meithrin delwedd Cymru yn Ewrop a'r byd tu hwnt. (OAQ2937)

**3. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)** Pa gamau bydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau bod pobl ifanc o bob rhan o Gymru yn cael pob cyfle posib i gyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ2939)

**4. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)** Beth yw'r datblygiadau diweddaraf yn ei drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Trysorlys i gael arian newydd sy'n ychwanegol at y grant bloc Barnett i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol gyda'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. (OAQ2047)

**5. Jane Davidson (Pontypridd)** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd ar y gweill i feithrin perthynas y Cynulliad â'r mentrau ariannu sydd ar gael trwy'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yng Nghymru. (OAQ2958)

**6. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)** Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch yr Arolwg Cynhwysfawr o Wariant. (OAQ2967)

**7. Helen Mary Jones (Llanelli)** Pryd bydd y Pwyllgorau Pwnc yn trafod yr Arolwg Cynhwysfawr o Wariant. (OAQ2969)

**8. Phil Williams (Dwyrain De Cymru)** Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i gyfarfod llawn y Cynulliad gymryd rhan yn yr Arolwg Cynhwysfawr o Wariant. (OAQ2964)

**9. Dafydd Wigley (Caernarfon)** A yw'n bwriadu dadlau o blaid adolygu Fformwla Barnett fel rhan o'r Arolwg Cynhwysfawr o Wariant. (OAQ2966)

**10. Christine Humphreys (Gogledd Cymru)** Pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i weithredu penderfyniad y Cynulliad ar 3 Tachwedd 1999 i adolygu'r modd yr ariennir y sector gwirfoddol yng Nghymru. (OAQ2962)

**11. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** Pa gyfarfodydd y mae wedi'u cynnal â Chynghorwyr yn y Canolbarth mewn perthynas â'r codiadau arfaethedig yn nhreth y cyngor. (OAQ2936)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed)** A wnaiff roi ei sylwadau ar rôl y Parciau Cenedlaethol yn y gwaith o hybu delwedd Cymru. (OAQ2938)

**13. Jenny Randerson (Canol Caerdydd)** Beth fydd effaith y cynnydd yn nifer yr achosion llys yn erbyn pobl ag ôl-ddyledion morgais ar bolisïau cynhwysiant cymdeithasol y Cynulliad. (OAQ2959)

**14. Alison Halford (Delyn)** Pa gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Cabinet y Cynulliad a chynrychiolwyr Cymru o Gyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain. (OAQ2934)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru)** Pa gamau a gynllunnir er mwyn gofalu bod y Cynulliad yn rhoi gwell gwybodaeth i fudiadau gwirfoddol am y cyfleoedd i sicrhau arian o dan Adran 180 Deddf Tai 1996. (OAQ2963)

**16. Janet Davies (Canol De Cymru)** Pa gynlluniau sydd ganddo i ofyn am arolwg o Fformwla Barnett. (OAQ2965)

**17. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)** Pa flaenoriaethau Cymreig o safbwynt y gyllideb y mae'n bwriadu gofyn i lywodraeth Llundain eu cynnwys yn yr Arolwg Gwariant Cynhwysfawr. (OAQ????)

**18. Gareth Jones (Conwy)** Pa newidiadau i floc Cymru y bydd yn gofyn am eu hystyried yn yr Arolwg Gwariant Cynhwysfawr. (OAQ2970)

**19. Mick Bates (Sir Drefaldwyn)** Pa gamau a gymerwyd i weithredu'r cynnig a basiodd y Cynulliad ar Dachwedd 3ydd 1999 yn ymwneud ag ariannu'r economi gymdeithasol yng Nghymru. (OAQ2960)

**20. Lynne Neagle (Tor-faen)** Pa gyfraniad y mae'r Prif Ysgrifennydd yn disgwyl i'r Cynulliad Cenedlaethol ei wneud i'r broses o ddatblygu polisi gwrth-hiliol yng Nghymru, y DU ar Undeb

Ewropeaidd. (OAQ2940)